# Cyflwyniad CDLl Newydd Caerdydd ar gyfer Archwiliad

# Datganiad Cwestiynau Rhagarweiniol

## Rhagfyr 2025

**1. A yw’r CDLl wedi ei baratoi yn unol â gofynion:**

**a) Y Cytundeb Cyflawni cymeradwy, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?**

1.1 Paratowyd y CDLlN yn unol â'r Cytundeb Cyflawni (CC), gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC). Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad i'w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori Terfynol (CDLlN 29).

**b) Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) (2015)?** A

1.2 Mae'r CDLlN wedi rhoi sylw i ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCD) 2015. Cynhaliwyd asesiad cydnawsedd o amcanion, polisïau strategol a manwl y CDLlN, yn erbyn y saith nod Llesiant ac mae hyn wedi'i nodi yn Nhablau 3.1, 3.3 a 3.5 yn Atodiad 3 y CDLlN. Mae'r CDLlN hefyd yn cyd-fynd â'r egwyddorion cynllunio allweddol a'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a nodir yn PCC12 (gweler Tablau 3.2, 3.4 a 3.6) a chynllun Llesiant y Cyngor.

**c) Deddf Cydraddoldeb (2010)?**

1.3 Mae'r CDLlN wedi'i baratoi yn unol â Deddf Cydraddoldeb (2010). Mae'r cynllun yn cael ei gefnogi gan Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) ac Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (CDLlN 25) ar wahân. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI), fel rhan o'r broses ACI.

**2. A yw'r CDLl wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol cadarn? A yw holl 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' y Cynllun a'r holl 'ddewisiadau amgen rhesymol' wedi'u hadnabod, eu disgrifio a'u gwerthuso?**

2.1 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn broses iteraidd ac mae wedi'i gynnal ar gamau allweddol yn y broses o baratoi'r cynllun. Mae'r ACI integredig (CDLlN 22) yn bodloni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol ac yn ymgorffori canfyddiadau'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb a’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant (CDLlN 25), Asesiad o’r Effaith ar Iechyd (CDLlN 24), Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg (CDLlN 26) ac wedi rhoi ystyriaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ACI yn asesu cynaliadwyedd tebygol ac effeithiau amgylcheddol sylweddol yr holl elfennau sylweddol yn y Cynllun (strategaeth, polisïau, dyraniadau safleoedd, ac ati) a’r dewisiadau amgen rhesymol a nodwyd. Mae hyn yn adeiladu'n uniongyrchol ar adroddiadau ACI blaenorol a gynhaliwyd i gyd-fynd â chamau cynharach y CDLlN gan gynnwys Adroddiad Cwmpasu ACI (Mai 2021) ac ACI Cychwynnol (Mai 2023).

2.2 Mae effeithiau sylweddol tebygol y Cynllun Adneuo, yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol, wedi'u nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso gan dynnu ar yr amcanion ACI a nodwyd drwy'r adroddiad cwmpasu fel fframwaith methodolegol. Ystyrir

effeithiau cronnus hefyd, gan gynnwys y potensial i'r Cynllun effeithio ar agwedd o'r data gwaelodlin ar ôl iddo gael ei roi ar waith law yn llaw â chynlluniau, rhaglenni a phrosiectau eraill. Gwneir cyfeiriad penodol at effeithiau cronnus yn yr arfarniad fel y bo'n briodol.

2.3 Yn unol â gofynion rheoleiddio, mae'r ACI yn gwerthuso dewisiadau amgen rhesymol gan fanylu ar sut maent wedi'u sefydlu ac yn gwerthuso opsiynau sy'n ymwneud â lefel y twf, lleoliad y twf ac ardaloedd twf strategol.

**3. A yw'r CDLI wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cadarn? Lle mae 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' wedi'u nodi, a oes Asesiad Priodol (AP) digonol wedi'i gynnal?**

3.1 Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) wedi'i gynnal gydol paratoi'r CDLIN fel proses integredig ac iteraidd, gyda'r asesiad o'r Cynllun Adneuo wedi'i gynnwys yn ARhC Cynllun Adneuo CDLIN Caerdydd – Ionawr 2025 (CDLIN 23).

3.2 Nododd yr ARhC 'effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol' ar gyfer safle ACA/AGA/Ramsar Aber Afon Hafren, ac ACA Coed Ffawydd Caerdydd a chynhaliwyd Asesiad Priodol. Mae’r ARhC yn cyflwyno cyfres o argymhellion sydd wedi eu hymgorffori i’r cynllun ac yn dod i’r casgliad bod y CDLIN gyda’r newidiadau hyn yn cynnwys fframwaith polisi digonol fel na fyddai unrhyw effaith andwyol yn codi ar safleoedd Cynefinoedd naill ai ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill.

**4. A fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol ers i'r CDLI gael ei adneuo? Os bu yna, beth yw goblygiadau'r newidiadau hyn i'r Cynllun? A oes angen mynd i'r afael â nhw trwy baratoi tystiolaeth newydd a/neu ddiwygiadau i'r Cynllun? Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn?**

4.1 Ers cyhoeddi'r CDLIN Adneuo ym mis Chwefror 2025, cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol (NCT)15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 ac mae'n nodi'r meini prawf y gellir asesu canlyniadau datblygiad yn eu herbyn mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd ac mae'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio (MLIC) yn cyd-fynd ag ef. Mae NCT15 yn adlewyrchu egwyddorion craidd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru i fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg o ran datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae NCT15 yn cynnwys canllawiau technegol sy'n ymwneud â chynllunio datblygu a pherygl llifogydd ac mae'n darparu fframwaith lle gellir asesu'r risgiau llifogydd sy'n deillio o afonydd, y môr a dŵr wyneb, a'r risg o erydu arfordirol. Yn unol â'r TAN15 wedi'i ddiweddaru, comisiynwyd gwaith pellach i ddiweddaru'r rhannau perthnasol o'r ACLIS (CDLIN 43) cyn yr archwiliad.

## 5. A yw strategaeth y CDLl yn gyson/yn gydnaws/yn cydymffurfio â: a) Polisi cenedlaethol, canllawiau a Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040?

5.1 Ystyrir bod y CDLlN yn gyson ac yn gydnaws â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 a PCC12, fel y nodir yn Hunanasesiad Cadernid y CDLlN Adneuo (Atodiad 5). Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y CDLlN Adneuo, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod 'y Cynllun yn cydymffurfio â'r cynllun yn gyffredinol. Mae'r strategaeth a nodir yn y cynllun yn cyd-fynd â rôl Caerdydd fel 'ardal dwf genedlaethol' fel ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad.

5.2 Mae'r Cynllun Adneuo yn ystyried polisïau a chanllawiau cenedlaethol fel y nodir yn PCC12 a Nodiadau Cyngor Technegol (NCTau) cysylltiedig. Mae'r CDLlN a'r dogfennau ategol yn cyfeirio at adrannau perthnasol o PCC12 sy'n benodol i'r mater sy'n cael ei drafod ac mae gofynion polisi PCC12 wedi cael eu hystyried a'u hymgorffori lle bo'n berthnasol wrth baratoi'r Cynllun Adneuo. Mae'r testun ategol yn ychwanegu sylwebaeth bellach ar y dolenni i ganllawiau cenedlaethol.

### b) Y Nodau Llesiant?

5.3 Mae'r CDLlN wedi rhoi sylw llawn i ddarpariaethau'r Nodau Llesiant fel y'u nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCD) 2015. Cynhaliwyd asesiad cydnawsedd o amcanion, polisïau strategol a manwl y CDLlN, yn erbyn y saith nod Llesiant ac mae hyn wedi'i osod allan yn Nhablau 3.1, 3.3 a 3.5 yn Atodiad 3 y CDLlN. Mae'r CDLlN hefyd yn cyd-fynd â chynllun Llesiant y Cyngor.

### c) Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru?

5.4 Mae'r CDLlN yn ymdrin â nifer o faterion a meysydd polisi sy'n ategu nodau ac amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Mae Polisïau Strategol SP4 - Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da, SP20 Sicrhau Gwytnwch Hinsawdd, Dad-garboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy mewn Datblygiadau Newydd ac SP21 Cynnal a Gwella Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth yn ategu'r Cynllun Morol drwy gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o berygl llifogydd, gwarchod a gwella seilwaith a rhwydweithiau gwyrdd a chydnabod yr her sy’n dod yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae'r berthynas â'r Cynllun Morol wedi ei wella ymhellach drwy bolisïau Rheoli Datblygu manwl, megis Polisi BG7 – Aber Afon Hafren a Phwysau Hamdden Coed Ffawydd Caerdydd, sy'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar uniondeb ACA, AGA a Ramsar Aber Afon Hafren o ganlyniad i gynnydd mewn pwysau ymwelwyr a Pholisi W2 - Diogelu Adnoddau Dŵr, sy'n ceisio sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio ar ansawdd ffynonellau dŵr. Fel y cyfryw, mae fframwaith polisi’r CDLlN yn ceisio diogelu’r ecosystem afonydd, sy'n llifo i Aber Afon Hafren ac ardal y Cynllun Morol Cenedlaethol.

### d) Y Datganiad Ardal perthnasol?

5.5 Mae Caerdydd yn ffurfio rhan o Ddatganiad Ardal Canol De Cymru ynghyd â Phen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a gyhoeddwyd gan CNC ym mis Mawrth 2020. Mae'r Cynllun Adneuo yn ystyried themâu strategol y Datganiad Ardal, sef Adeiladu Ecosystemau Gwydn, Cysylltu Pobl â Natur, Gweithio gyda Dŵr, Gwella ein Iechyd a Gwella Ansawdd Aer drwy bolisïau'r cynllun sy'n ceisio cyflawni llawer o'r deilliannau sy'n gysylltiedig â phob thema. O ganlyniad, ystyrir bod y CDLlN yn gyson â themâu a nodau allweddol Datganiad Ardal Canol De Cymru.

5.6 Gwerth nodi, mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo, atebodd CNC drwy ddweud ei fod o'r farn bod y Cynllun Adnau yn rhoi digon o sylw i Ddatganiad Ardal Canol De Cymru a'i fod yn gallu gweld synergeddau rhwng strategaeth "Cryfach, Tecach, Gwyrddach" y Cyngor, a gwerthoedd a themâu'r Datganiad Ardal.

### e) Os yn CDLl, y cynllun datblygu strategol perthnasol (pan gaiff ei fabwysiadu)?

5.7 Mae paratoi'r CDS yn ei gamau cynnar, heb fframwaith polisi clir wedi'i sefydlu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn rhan weithredol o'r trafodaethau a'r hyn a gytunwyd hyd yma, ac mae'r Cyngor wedi penderfynu'n ffurfiol i fod yn rhan o'r CDS.

### f) Cynlluniau/strategaethau rhanbarthol a rhaglenni darparwyr cyfleustodau?

5.8 Mae cwmnïau cyfleustodau wedi bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLlN i sicrhau cysondeb â'u rhaglenni. Er enghraifft, cynhaliwyd trafodaethau ac ymgynghoriadau helaeth rhwng y Cyngor a Dŵr Cyrmu i sicrhau bod capasiti draenio carthffosiaeth budr, yn ogystal â chwmnïau cyfleustodau eraill fel Western Power, i ddeall y capasiti i dyfu ac ar gyfer ynni adnewyddadwy.

5.9 Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn ystyried effeithiau cyfunol y Cynllun ynghyd â chynlluniau a strategaethau eraill yn y rhanbarth ac yn dod i'r casgliad bod y cynllun yn unol ag amcanion diogelu'r amgylchedd yn rhanbarthol a lleol.

### g) Cynlluniau/strategaethau awdurdodau cynllunio lleol cyfagos? A

5.10 Mae'r Cynllun Adneuo yn ystyried materion trawsffiniol a chynlluniau awdurdodau cyfagos perthnasol ac yn adlewyrchu'r trafodaethau a'r cytundebau y daethpwyd iddynt ynghylch materion trawsffiniol. Mae enghreifftiau'n cynnwys cydweithio rhanbarthol rhyngom â Bro Morgannwg (CDLlN 28) sy'n edrych ar dueddiadau poblogaeth a chymudo rhwng y ddau awdurdod.

### h) Y Cynllun Llesiant neu Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol perthnasol?

5.11 Mae'r Cynllun yn ystyried darpariaethau Cynllun Llesiant Caerdydd ac mae gweledigaeth ac amcanion y CDLlN yn adlewyrchu'r saith nod llesiant sydd yn y

cynllun sef (1) Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru (2) Caerdydd Un Blaned (3) Cymunedau diogel, hyderus a grymus (4) Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu (5) Cefnogi pobl allan o dlodi (6) Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn a (7) Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus.

**6. A yw'r ACLl wedi dihysbyddu pob cyfle i gydweithio a chydweithredu ar baratoi y CDLl ac ar ei sylfaen dystiolaeth?**

6.1 Mewn cydnabyddiaeth o werth gweithio gydag awdurdodau cyfagos, ac mewn ymateb i PCC12 a phwyslais y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rh 3, Mawrth 2020) ar weithio ar y cyd, mae paratoi'r Cynllun Adneuo wedi cynnwys ymagwedd ranbarthol a chydgysylltiedig o gasglu tystiolaeth, gyda rhan o'r sylfaen dystiolaeth yn cael ei chomisiynu ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr asesiad rhanbarthol o dwf ac ymfudo yn y dyfodol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) (CDLl 36) a'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (CDLlN 43). Mae hyn wedi darparu ymagwedd cyson a chymharol o fethodolegau a sail i ystyried y dystiolaeth ac unrhyw oblygiadau ar sail fwy rhanbarthol, yn ogystal ag ar lefel leol.

6.2 Rydym wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd. Cyfeirir at ragor o fanylion cydweithio a chydweithredu ledled y CDLlN ynghlwm â meysydd pwnc penodol. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol a chydweithio parhaus trwy Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDDdC), Swyddogion Cynllunio De Cymru (SCDC) a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio De-ddwyrain Cymru (CSCDDdC). Mae gwaith a wnaed gan GCSDDdC a grwpiau Braenaru seiliedig ar bwnc, wedi helpu i sefydlu ymagwedd cyffredin o ymdrin â nifer o dasgau paratoi Cynllun gan gynnwys asesiadau safleoedd ymgeisiol a monitro tir manwerthu a chyflogaeth. Mae dulliau gweithio rhanbarthol hirsefydlog sy'n gysylltiedig â meysydd fel gwastraff a mwynau wedi parhau ac yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Adneuo.

6.3 Bydd ystyriaeth yn parhau i gael ei roi i'r pwyslais ar weithio rhanbarthol yng ngoleuni darpariaethau yn y dyfodol ynghylch Cynlluniau Datblygu Strategol.

**7. Beth yw strategaeth ofodol y CDLl? Sut mae elfennau allweddol y strategaeth yn rhyngweithio? A yw'n cynrychioli ymagwedd priodol ar gyfer cyflawni, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?**

7.1 Mae Polisi Strategol SP1 – Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy, yn nodi strategaeth ofodol glir yr ystyrir ei bod yn adlewyrchu un o amcanion allweddol y CDLlN, sef diwallu anghenion economaidd a chymdeithasol a dystiolaethir wrth gynnal a gwella adnoddau amgylcheddol a naturiol Caerdydd. Mae elfennau allweddol y strategaeth fel a ganlyn:

- Darparu ar gyfer 26,400 (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036;

- Darparu cyfleoedd i ddarparu o leiaf 32,300 o swyddi newydd yn y ddinas yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036 i gefnogi'r uchelgeisiau economaidd a chyflogaeth strategol yn y ddinas a'r rhanbarth;
- Darparu digon o dir cyflogaeth i gefnogi twf economaidd a chreu swyddi;
- Potensial i ddarparu 5,000 i 6,000 o gartrefi fforddiadwy yn dibynnu ar gyfansoddiad safleoedd;
- Darparu ystod dda a dewis o dai gyda rhaniad tir llwyd / maes glas 50:50;
- Darparu seilwaith, cyfleusterau cymunedol ac amcanion teithio cynaliadwy;
- Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur;
- Parchu a gwella nodweddion amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y ddinas;
- Cydnabod cymeriad diwylliannol y ddinas a hyrwyddo twf a defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd;
- Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd adfywio corfforol a chymdeithasol sy'n darparu ar gyfer ac yn adlewyrchu ystod o gymunedau amrywiol a chydlynol ledled y ddinas;
- Canolbwyntio newid o ran manwerthu ar ganolfannau sefydledig;
- Cydnabod cyfraniad 'tir a ddatblygwyd yn flaenorol' a'i ddefnyddio fel y bo'n briodol;
- Cynnig cyfleoedd i ddarparu ar gyfer economi ymwelwyr y ddinas;
- Diogelu a gwella nodweddion cadwraeth naturiol, hanesyddol ac adeiledig Caerdydd a'i thirweddau gwerth uchel; a
- Cyfrannu at rwydwaith trafnidiaeth integredig yn y ddinas a'r rhanbarth a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio a gallu manteisio ar ddulliau teithio amgen gan gynnwys cerdded a beicio.

7.2 I lywio'r strategaeth hon mae amryw o opsiynau twf wedi cael eu hystyried gan ymgynghori arnynt a cheisiwyd cyngor arbenigol. Ystyrir mai lefel y twf a nodir yn y Polisi hwn sy'n adlewyrchu orau y dadansoddiad o'r holl ffactorau perthnasol. Yn bwysig, mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ystyried yr holl ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru ac ystyrir ei fod yn:

- Unol â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n nodi'r ddinas fel Ardal Dwf Genedlaethol;
- Yn unol â gweledigaeth ac amcanion CDLl y Cyngor;
- Ymateb yn effeithiol i'r angen clir wedi ei dystiolaethu i ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi a swyddi newydd. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni'r amcanestyniadau swyddogol ac ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir gan ystyried yr ystod lawn o ffactorau;
- Darparu cartrefi a swyddi angenrheidiol, ond mewn modd rheoledig sy'n diogelu elfennau allweddol o amgylchedd Caerdydd;
- Bodloni ffactorau cyflawni a chapasiti - mae'r CDLl yn cynnwys cynigion a mecanweithiau sy'n cyfiawnhau sut y gellir mynd i'r afael yn ddigonol â materion cyflawni a chapasiti.

- Ymateb mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r safbwyntiau gwahanol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar opsiynau strategol.

**8. Sut cafodd hierarchaeth aneddiadau'r CDLl ei diffinio? A yw'r fethodoleg a ddefnyddir i ddiffinio'r hierarchaeth yn glir ac yn rhesymegol?**

8.1 Gan fod Caerdydd yn ardal drefol i raddau helaeth, nid yw'r cynllun yn cynnwys hierarchaeth aneddiadau. Mae polisi strategol SP12 – Darparu Cymdogaethau Cynaliadwy, Cydlyniant Cymdeithasol a Thai Fforddiadwy yn ceisio hyrwyddo creu cymdogaethau cynaliadwy. Mae'r ymagwedd hwn yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru ac yn ceisio datblygu cymdogaethau cynaliadwy, sicrhau cymunedau cryf a chydlynol, mynd i'r afael ag amddifadedd, lleihau anghydraddoldebau, a gwella ansawdd bywyd i bawb. Wrth gyflawni cymunedau cynaliadwy, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau ystod o feintiau, mathau a fforddiadwyedd o ran anheddau a hynny o ran tai marchnad a thai fforddiadwy er mwyn diwallu'r anghenion a nodir (gan gynnwys tai cymorth, llety i bobl hŷn ac anghenion arbennig eraill lle bo'n briodol), mewn cymdogaethau diogel.

**9. Beth yw'r rhesymeg dros ddosbarthiad datblygiadau newydd? A yw'r ymagwedd yn gyson â'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy?**

9.1 Er mwyn darparu ar gyfer twf, nodwyd yr wyth Opsiwn Gofodol amgen canlynol:

Opsiwn 1: Estyniad pellach i'r ymrwymiadau Safleoedd Strategol presennol

Opsiwn 2: Dwysáu trefol yn seiliedig ar strategaeth tir llwyd yn unig

Opsiwn 3: Adnewyddu ac adfywio yn seiliedig ar safleoedd defnydd cymysg tir llwyd

Opsiwn 4: Twf yn seiliedig ar ganolfannau ardal a lleol yn unol â chysyniad dinas o bentrefi

Opsiwn 5: Twf yn seiliedig ar hybiau trafnidiaeth

Opsiwn 6: Coridorau twf tramwy cyhoeddus strategol

Opsiwn 7: Ardaloedd twf maes glas gwasgaredig

Opsiwn 8: Cyfuniad gwasgaredig o dir llwyd a maes glas

9.2 Roedd pob opsiwn yn ceisio:

- Cefnogi Caerdydd fel sbardun allweddol ar gyfer twf, fel rhan o Ardal Dwf Genedlaethol fel a nodir yn Cymru'r Dyfodol;
- Canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a'r egwyddorion creu lleoedd;

- Alinio ag ymagwedd Un Blaned Caerdydd – i ddatgarboneiddio'r ddinas a dod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030, tra'n creu cyfleoedd economaidd a hyrwyddo lles cymdeithasol
- Wrth ddatblygu'r opsiynau gofodol, rhoddwyd sylw hefyd i'r Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd, i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac amcanion llesiant Caerdydd. Mae'r opsiynau a glustnodwyd yn tybio bod angen alinio gwelliannau seilwaith â datblygiadau newydd, gan gynnwys gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg a chyfleusterau cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r term 'datblygiad' a ddefnyddir yn yr Opsiynau Gofodol ar gyfer Twf yn cyfeirio at gydbwysedd tai, cyfleoedd cyflogaeth a'r seilwaith cysylltiedig.
- Mae datblygiad yr opsiwn a ffefrir wedi dod i'r amlwg wrth ystyried yr opsiynau gofodol ac ystyriaethau eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
- y nodau llesiant;
- cynnwys yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a’r Adroddiad Adolygiad;
- y prosesau ymgysylltu; a
- chanfyddiadau'r Adroddiad Cynaliadwyedd Integredig.

9.3 Wrth adnabod yr opsiwn a ffefrir, derbyniwyd o’r dechrau y byddai amrywiadau posibl ar yr opsiynau strategol a nodwyd, gan gynnwys opsiwn a fyddai'n ystyried cymysgedd o'r canlyniadau cadarnhaol o blith nifer o'r opsiynau hynny. Wrth ystyried yr uchod, a chyfeirio at y materion, yr amcanion a'r weledigaeth a drafodwyd yn gynharach yn y cynllun, a'r sylwadau a ddaeth i law o'r broses ymgysylltu, daeth opsiwn hybrid, sy'n adlewyrchu rhai o nodweddion yr wyth opsiwn gofodol, i'r amlwg fel y dull mwyaf priodol o gyflawni strategaeth ofodol gytbwys a chynaliadwy ar gyfer y ddinas.

9.4 Mae'r opsiwn hybrid hwn yn adeiladu ar yr ymagwedd a amlygir trwy'r opsiynau strategol tir llwyd 2, 3, 4 a 5. Mae’r strategaeth yn un tir llwyd yn ei hanfod ac mae'n ceisio diwallu'r rhan fwyaf o'r tir ar gyfer tai sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036 drwy ystod o safleoedd tir llwyd o fewn ffin bresennol yr anheddiad. Bydd safleoedd o'r fath yn ardaloedd adfywio ac adnewyddu mawr, wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw canolfannau ardal neu leol, neu ar nodau trafnidiaeth o fewn yr ardaloedd trefol. Bydd y safleoedd hyn, ynghyd â'r banc tir sylweddol presennol o safleoedd sydd ar dir maes glas ar ymylon y ddinas, yn cynnig amrywiaeth a dewis o fathau o dai a lleoliadau ar draws y ddinas.

9.5 Ystyrir bod y fframwaith polisi a nodir yn y Cynllun Adneuo yn adlewyrchu amcanion polisi'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a pholisi Cymru’r Dyfodol ac yn darparu'r sail i wneud cyfraniad sylweddol at amcanion creu lleoedd ar lefel leol yng Nghaerdydd. Mae cydnawsedd amcanion y cynllun, polisïau strategol a manwl â'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy wedi'i nodi yn Atodiad 3 y cynllun (gweler Tablau 3.2, 3.4 a 3.6).

## 10. Beth oedd y fethodoleg fu'n sail i'r broses o ddewis safleoedd?

10.1 Fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLIN, gwahoddodd y Cyngor dirfeddianwyr, datblygwyr a'r cyhoedd i gyflwyno 'Safleoedd Ymgeisiol' i'w hystyried ar gyfer datblygu, ailddatblygu neu i'w hamddiffyn yn CDLIN Caerdydd. Cynhaliwyd hyn yn haf 2021 ac mae canfyddiadau'r broses asesu ar gyfer pob un o'r 'Safleoedd Ymgeisiol' wedi'u nodi ym Mhapur Technegol Cefndir Rhif 10 (CDLIN 21).

**A yw'r safleoedd a ddyrannwyd o ganlyniad:**

**a) Mewn lleoliadau cynaliadwy ac yn gyffredinol yn rhydd o gyfyngiadau ffisegol, megis perchnogaeth tir, seilwaith, mynediad, amodau'r ddaear, materion perygl llifogydd, llygredd, tirwedd, bioamrywiaeth a dynodiadau treftadaeth? ac**

10.2 Mae'r strategaeth yn un tir llwyd yn ei hanfod ac mae'n ceisio diwallu'r rhan fwyaf o'r tir ar gyfer tai sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036 drwy ystod o safleoedd tir llwyd o fewn ffin bresennol yr anheddiad. Bydd safleoedd o'r fath yn ardaloedd adfywio ac adnewyddu mawr, wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw canolfannau ardal neu leol, neu ar nodau trafnidiaeth o fewn yr ardaloedd trefol mewn lleoliadau cynaliadwy.

10.3 Mae'r CDLIN yn dyrannu ystod o ardaloedd adfywio dan arweiniad Tai, dau safle tai nad ydynt yn strategol a rhai ardaloedd gweddilliol o'r safleoedd tai strategol mawr a nodwyd yn y CDLI mabwysiedig sydd bellach yn gweld gwaith adeiladu. Bydd y safleoedd hyn, ynghyd â'r banc tir sylweddol presennol yn cynnig amrywiaeth a dewis o fathau o dai a lleoliadau ar draws y ddinas.

10.4 Mae'r safleoedd a ddyrannwyd wedi'u hasesu drwy'r broses asesu safleoedd ymgeisiol fel y nodwyd uchod ac nid oes gan unrhyw un gyfyngiadau sylfaenol a fyddai'n atal eu datblygu (CDLIN 21). Mae ymgynghori a deialog â rhanddeiliaid allanol a mewnol hefyd wedi'u cynnal drwy gydol y broses CDLIN o ran y safleoedd ymgeisiol ac mae wedi parhau o ran y safleoedd a ddyrannwyd wrth i'r Cynllun fynd rhagddo. Pan ystyrir bod unrhyw ofynion penodol yn angenrheidiol yn ymwneud â safleoedd a ddyrannwyd, nodir hyn yn y polisïau safle-benodol.

**b) Yn ddeniadol i'r farchnad (y sector preifat a/neu gyhoeddus) ar gyfer datblygu, yn gallu darparu ar gyfer y gofynion polisi a seilwaith a nodir yn y Cynllun, yn hyfyw, ac y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun?**

10.5 Mae'r safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu hystyried yn ddeniadol i'r farchnad gydag adeiladwyr tai, hyrwyddwyr tir a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi bod yn ymgysylltu gydol proses y CDLIN ar hyrwyddo'r safleoedd tai / defnydd cymysg a ddyrannwyd.

10.6 Mae'r CDLIN yn cael ei gefnogi gan asesiad hyfywedd (CDLIN 38) sy'n dangos bod y safleoedd yn hyfyw yn seiliedig ar ofynion polisi allweddol a nodir yn y CDLIN, gan gynnwys darparu 30% o gartrefi fforddiadwy ar safleoedd maes glas ac 20% ar safleoedd tir llwyd.

10.7 Mae cyfraddau cyflawni'r safleoedd a ddyrannwyd wedi'u nodi yn y Taflwybr Tai yn Atodiad 7 y CDLIN, sef y mecanwaith allweddol i ddangos sut y bydd safleoedd yn cael eu cyflawni yn yr amserlenni a nodwyd gydol cyfnod y Cynllun i fodloni gofyniad tai y CDLIN.

**11. A fydd y CDLl yn cael ei gefnogi gan ganllawiau cynllunio atodol? Os felly, pa bynciau fydd dan sylw? Beth yw'r amserlenni ar gyfer mabwysiadu'r canllawiau? Sut fydd hyn yn cynorthwyo i gyflawni'r Cynllun?**

11.1 Bydd y CDLIN yn cael ei gefnogi gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gwmpasu ystod o feysydd polisi fel y nodir yn Atodiad 4 y CDLIN. Bydd y CCA yn cael eu paratoi i ddarparu rhagor o fanylion ar bolisïau a chynigion penodol ac i gefnogi'r gwaith o ddehongli a gweithredu fframwaith polisi'r Cynllun.

**12. Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer darparu tai? A yw'n briodol i allu diwallu anghenion yr ardal dros gyfnod y Cynllun?**

12.1 Mae Polisi Strategol SP1 – Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy, yn nodi strategaeth ofodol glir yr ystyrir sydd yn adlewyrchu un o amcanion allweddol y CDLIN, sef diwallu anghenion economaidd a chymdeithasol a dystiolaethir wrth gynnal a gwella adnoddau amgylcheddol a naturiol Caerdydd. Mae elfennau allweddol y strategaeth yn cynnwys darparu ar gyfer 26,400 (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036.

12.2 Mae lefel y twf tai yn cael ei lywio gan Astudiaeth Ddemograffig a gynhaliwyd gan Edge Analytics (CDLIN 35) ac ystyrir ei bod yn adlewyrchu orau ddadansoddiad o'r holl ffactorau perthnasol. Yn bwysig, mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ystyried yr holl ganllawiau polisi cynllunio Cenedlaethol perthnasol fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru ac ystyrir ei fod yn:

- Unol â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n nodi'r ddinas fel Ardal Dwf Genedlaethol;
- Yn unol â gweledigaeth ac amcanion CDLl y Cyngor;
- Ymateb yn effeithiol i'r angen clir wedi ei dystiolaethu i ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi a swyddi newydd. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni'r rhagamcanion swyddogol ac ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir gan ystyried yr ystod lawn o ffactorau;
- Darparu cartrefi angenrheidiol mewn modd wedi ei reoli sy'n diogelu elfennau allweddol o amgylchedd Caerdydd;
- Bodloni ffactorau cyflawni a chapasiti - mae'r CDLl yn cynnwys cynigion a mecanweithiau sy'n cyfiawnhau sut y gellir mynd i'r afael yn ddigonol â materion cyflawni a chapasiti.
- Ymateb mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar opsiynau strategol.

**13. Beth yw ffigur gofynion tai (FfGT) y CDLl? Sut mae wedi'i gyfrifo?**

13.1 Ffigur gofynion tai y CDLIN yw 24,000 o gartrefi ar gyfer y cyfnod 2021-2036. Fel y nodir ym Mholisi Strategol SP1 – Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy, mae lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i gymhwyso i'r ffigur gofynion, gyda'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer 26,400 o gartrefi.

13.2 Mae strategaeth twf tai y CDLIN yn mabwysiadu ymagwedd polisi 'dan arweiniad tai_1600' sy'n darparu ar gyfer cyfartaledd o 1,600 o anheddau y flwyddyn dros gyfnod 15 mlynedd y cynllun. Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn yr Astudiaeth Ddemograffeg a wnaed gan Edge Analytics (CDLIN 35).

**14 Wrth ddiffinio'r FfGT, a roddwyd sylw digonol i'r amcanestyniadau aelwydydd a phoblogaeth diweddaraf? A roddwyd ystyriaeth i'r prif ddylanwadau lleol ar y galw am dai yn yr ardal (gan gynnwys cyfraddau ffurfio aelwydydd, lefelau mudo, a chymarebau trosi aelwydydd ac ati)?**

14.1 Fel y nodwyd wrth ymateb i gwestiwn 13, mae'r FfGT yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed gan Edge Analytics a nodir yn yr Astudiaeth Ddemograffig (CDLIN 35). Mae'r FfGT yn seiliedig ar ymagwedd polisi "dan arweiniad tai_1600" sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfartaledd o 1,600 o anheddau y flwyddyn dros gyfnod 15 mlynedd y cynllun. Mae'r senario hwn yn cyflwyno canlyniadau twf uchel ac yn amcangyfrif twf poblogaeth o 10.7%, gyda thwf aelwydydd cyfatebol o 14.6% a mudo net o 1,390 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun.

14.2 Mae’r senario ‘dan arweiniad tai_1600’ yn dangos effaith dychwelyd i ragolygon mwy cadarnhaol ar gyfraddau cwblhau tai. Mae'r diwydiant tai yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'r adlam economaidd parhaus ac yn sbardun allweddol i dwf a dosbarthiad poblogaeth yn y dyfodol. I Gaerdydd, bydd adfywiad parhaus o ran cwblhau tai, sy'n gwella ar ôl tarfu COVID-19, yn elfen hanfodol o'i datblygiad economaidd yn y dyfodol, gan osod sail i gyflawni uchelgais strategol y Cynllun Cenedlaethol.

**15 A ystyriwyd senarios twf tai amgen? Os felly, pa senarios amgen oedden nhw, pam y cawsant eu gwrthod, a pham y dewiswyd yr opsiwn a ffefrir?**

15.1 Ystyriwyd nifer o opsiynau twf ac ymgynghorwyd arnynt yn ystod paratoi'r cynllun i gyrraedd y cam Adneuo, gyda'r manylion wedi'u nodi ym Mhapur Ymgynghori Opsiynau Strategol y CDLIN (CDLIN 04). Cafodd y rhain eu llywio gan ystod o opsiynau twf poblogaeth a gyflwynwyd yn yr Astudiaeth Demograffeg a baratowyd gan Edge Analytics (CDLIN 35).

15.2 Mae Edge Analytics wedi defnyddio technoleg POPGROUP i ffurfio ystod o senarios twf ar gyfer Caerdydd, gan ymgorffori ystadegau demograffig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Llywodraeth Cymru, i gynhyrchu rhagolygon ar gyfer cyfnod cynllun 2021–2036. Mae'r rhain wedi'u nodi'n fanwl yn Nhabl 2 (tudalen 24) yr Astudiaeth Ddemograffig (CDLIN 35).

15.3 Mae strategaeth twf tai y CDLIN yn mabwysiadu ymagwedd polisi 'dan arweiniad tai_1600' sy'n darparu ar gyfer cyfartaledd o 1,600 o anheddau y flwyddyn dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd. Ystyrir mai hwn sy’n adlewyrchu orau y dadansoddiad o'r holl ffactorau perthnasol. Yn bwysig, mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ystyried yr holl ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru a bernir ei fod yn:

- Unol â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n nodi'r ddinas fel Ardal Dwf Genedlaethol;
- Yn unol â gweledigaeth ac amcanion CDLl y Cyngor;
- Ymateb yn effeithiol i'r angen clir wedi ei dystiolaethu i ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi a swyddi newydd. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni'r amcanestyniadau swyddogol ac ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir gan ystyried yr ystod lawn o ffactorau;
- Darparu cartrefi angenrheidiol, ond mewn modd wedi ei reoli sy'n diogelu elfennau allweddol o amgylchedd Caerdydd;
- Bodloni ffactorau cyflawni a chapasiti - mae'r CDLl yn cynnwys cynigion a mecanweithiau sy'n cyfiawnhau sut y gellir mynd i'r afael yn ddigonol â materion cyflawni a chapasiti.
- Ymateb mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i’r safbwyntiau amrywiol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar opsiynau strategol.

## 16 Beth yw ffigwr cyflenwad tir tai y CDLl a sut mae wedi'i gyfrifo?

16.1 Mae'r CDLIN yn gwneud darpariaeth ar gyfer 29,429 o gartrefi yn seiliedig ar y ffigur gofynion tai o 26,400 o gartrefi ac ychwanegu lwfans hyblygrwydd o 10% sy'n cyfateb i 2,640 o gartrefi ychwanegol. Mae manylion yr elfennau cyflenwad tai wedi'u nodi yn y Papur Cefndir Tai (CDLIN 12).

16.2 Mae lwfans hyblygrwydd o 10% yn sicrhau cyflawni twf cynaliadwy ac i oresgyn unrhyw broblemau cyflawnadwyedd annisgwyl posibl. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cynllun a'r taflwybr tai cysylltiedig fod yn wydn ac yn ddigon hyblyg i ddelio â heriau annisgwyl, tra'n dal i alluogi'r gofyniad tai i gael ei gyflawni.

## 17 A yw'r taflwybr tai a nodir yn y CDLl yn realistig?

17.1 Mae taflwybr tai wedi'i baratoi fel rhan o'r Cynllun Adneuo, sy'n dangos y gellir cyflawni cyfraddau cyflawni tai i sicrhau bod y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ragweledig (CAFR) yn cael ei gyflawni gydol cyfnod y Cynllun. Mae'r taflwybr a'r rhagolwg cwblhau wedi'u paratoi mewn ymgynghoriad ag adeiladwyr tai a datblygwyr a hyrwyddwyr safleoedd, ac yn unol ag egwyddor blaen-lwytho’r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020). Mae'r taflwybr tai wedi'i nodi yn Atodiad 7 y CDLIN Adneuo.

## 18 Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer darparu tai fforddiadwy? A yw wedi'i lywio gan asesiad marchnad dibynadwy a chyfoes (AFDL)? Pa raddfa,

**deiliadaeth a math o angen tai a nodwyd a sut fydd yr angen hwn yn cael ei ddiwallu dros gyfnod y Cynllun?**

18.1 Mae darpariaeth tai fforddiadwy yn fater allweddol i'r ddinas ac mae'n rhan annatod o'r Strategaeth gyffredinol gyda darpariaeth o 30% yn ofynnol ar bob dyraniad maes glas safle newydd ac 20% ar bob dyraniad tir llwyd newydd o 5 neu fwy o anheddau neu safleoedd sy'n fwy na 0.1 hectar o arwynebedd gros fesul safle.

18.2 Mae'r CDLlN Adneuo wedi'i lywio gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf 2022-2027 (AFDL) (2025) (CDLlN 37). Mae'r AFDL yn amcangyfrif bod yna angen net o 960 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn yng Nghaerdydd dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd rhwng 2021 a 2036. Mae'r rhan fwyaf o'r angen am dai fforddiadwy a amcangyfrifir yn ymwneud â llety rhent cymdeithasol (687 y flwyddyn) a rhent canolradd/perchentyaeth cost isel (274 y flwyddyn) sydd i gyfrif am y gweddill. Byddai hyn yn cynrychioli gofyniad tai fforddiadwy o 14,400 o gartrefi pe bai'n cael ei allosod dros gyfnod y Cynllun. Nid yw hwn yn darged tai fforddiadwy realistig ar gyfer y Cynllun ac ni ddisgwylir iddo fod gan mai dim ond un o blith amrywiaeth o ddulliau o gyflawni cyflenwad o dai fforddiadwy yw datblygiadau newydd.

18.3 Mae'r AFDL yn nodi mai'r angen rhent cymdeithasol mwyaf yw ar gyfer cartrefi un gwely. Er bod yr angen hwn yn arbennig o uchel, mae'n bwysig sicrhau bod cymysgedd o fathau o dai a deiliadaeth yn cael eu darparu ar ddatblygiadau newydd er mwyn sicrhau cymunedau cytbwys. Bydd cymysgedd a deiliadaeth cartrefi yn cael eu cytuno gyda'r Cyngor yn y cam cais cynllunio.

**19 Beth yw targed tai fforddiadwy y CDLl? Sut cafodd ei gyfrifo? A yw'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cyflawni?**

19.1 Bydd y CDLlN yn darparu oddeutu 5,000 i 6,000 o gartrefi fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun yn seiliedig ar gartrefi yn y banc tir tai presennol sylweddol a chyfraniadau o'r dyraniadau tai yn y cynllun o dan bolisïau H1A, H1B a H2.

19.2 Mae'r CDLlN yn ceisio gwneud y mwyaf o ddarpariaeth tai fforddiadwy ar ddyraniadau tai newydd, gan adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu 30% o dai fforddiadwy ar safleoedd tai maes glas newydd a 20% ar safleoedd tir llwyd newydd i helpu i fynd i'r afael ag anghenion tai, digartrefedd ac anghydraddoldeb cymdeithasol Caerdydd. Mae'r CDLlN yn galluogi'r Cyngor i ystyried mecanweithiau amgen ar gyfer darparu cartrefi fforddiadwy a bydd pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn cael ei ystyried.

**20 A fydd targed tai fforddiadwy y CDLl yn bodloni'r angen am lety rhent cymdeithasol a chanolradd a nodwyd yn yr AFDL? Os na, sut y bydd**

20.1 Byddai targed yr AFDL yn cynrychioli gofyniad tai fforddiadwy o 14,400 o gartrefi pe bai'n cael ei allosod dros gyfnod y Cynllun. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 18, nid yw hwn yn darged tai fforddiadwy realistig ar gyfer y Cynllun ac

ni ddisgwylir iddo fod gan mai dim ond un o amrywiaeth o ddulliau o gyflawni cyflenwad o dai fforddiadwy yw datblygiadau newydd.

20.2 Yn ogystal â datblygiadau newydd, mae'r Cyngor yn archwilio ac yn gweithredu ystod o ymyriadau eraill i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Gweithredu rhaglen bartneriaeth tai gynhwysfawr "Cartrefi Caerdydd" ledled y ddinas gyda'r nod o ddarparu 4,000 o gartrefi newydd gan gynnwys 2,800 o gartrefi Cyngor newydd.
- Ailbwrpasu adeiladau presennol – mae hyn yn cynnwys cyfleoedd fel dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a thrawsnewid eiddo masnachol.
- Caffaeliadau – Mae Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn caffael eiddo presennol a'u hadnewyddu i'w defnyddio fel tai fforddiadwy.

## 21 Sut mae targed(au) tai fforddiadwy safle-benodol y CDLl wedi'u diffinio? Ym mha leoliadau daearyddol y bydd y targedau(au) yn berthnasol?

21.1 Mae Polisi Manwl H3 - Tai Fforddiadwy, yn darparu manylion y trothwyon lle bydd angen tai fforddiadwy. Mae Asesiad Hyfywedd (CDLIN 38) wedi'i gynnal i lywio'r targedau tai fforddiadwy, sy'n dangos bod modd cyflawni darpariaeth o 30% o gartrefi fforddiadwy ar safleoedd maes glas a bod modd cyflawni 20% o dai fforddiadwy ar safleoedd tir llwyd ledled y ddinas ar safleoedd o 5 neu fwy o anheddau neu safleoedd sy'n fwy na 0.1 hectar o arwynebedd gros fesul safle.

## 22 Sut y diffiniwyd trothwyon safleoedd tai fforddiadwy? A ydynt wedi cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?

22.1 Mae Asesiad Hyfywedd (CDLIN 38) wedi'i gynnal i lywio'r targedau tai fforddiadwy, sy'n dangos bod darparu 30% o gartrefi fforddiadwy ar safle yn gyraeddadwy ar safleoedd maes glas a bod 20% o dai fforddiadwy yn gyraeddadwy ar safleoedd tir llwyd ledled y ddinas. Mae'r Asesiad yn argymell trothwy o 5 neu fwy o anheddau neu safleoedd sy'n fwy na 0.1 hectar o arwynebedd gros fesul safle wrth gymhwyso'r targedau hyn.

## 23 Sut bydd cyfraniadau oddi ar y safle yn cael eu defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy?

23.1 Bydd angen cyfraniadau ariannol ar gyfer safleoedd o 5 neu fwy o anheddau neu safleoedd sy'n fwy na 0.1 hectar o arwynebedd gros fesul safle gan gynnwys addasiadau ac is-raniadau. Bydd angen cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn ardal yr awdurdod cynllunio lleol yn unol â'r manylion sydd i'w nodi yn y Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio.

23.2 Bydd cyfraniadau ariannol oddi ar y safle yn cefnogi darparu tai fforddiadwy, gan gynnwys opsiynau fel rhent cymdeithasol a thai canolradd. Bydd y cartrefi hyn ar gael i unigolion a theuluoedd nad ydynt yn gallu cael mynediad at dai ar y farchnad agored.

23.3 Caiff y Cyngor, naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth â phartneriaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ddyrannu arian yn y ffyrdd canlynol:

- Adeiladau newydd: Prynu tir neu ariannu'n uniongyrchol ddatblygu cartrefi fforddiadwy newydd.
- Caffael eiddo presennol: Prynu cartrefi marchnad a'u troi'n dai fforddiadwy.
- Addasu adeiladau: Ail-bwrpasu adeiladau presennol ar gyfer defnydd tai fforddiadwy.
- Adfer cartrefi gwag i'w hailddefnyddio: Adnewyddu eiddo gwag i ddarparu stoc tai fforddiadwy ychwanegol.

**24 Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr? A yw weddi ei lywio gan Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh)? A yw'r ALISTh yn nodi angen am leiniau newydd (parhaol a thrafnidiaeth) dros gyfnod y Cynllun? Sut bydd yr angen yn cael ei ddiwallu?**

24.1 Strategaeth y Cynllun ar gyfer darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr yw drwy gyfuniad o ddyraniad dros dro safle-benodol ar gyfer 80 o leiniau a pholisi sy'n seiliedig ar feini prawf i ganiatáu ystyried safleoedd ychwanegol a allai ddod ger bron yn ystod cyfnod y Cynllun.

24.2 Cwblhawyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) (CDLIN 47) diweddaraf y Cyngor yn 2021 a chytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2024. I grynhoi, mae'r casgliadau yn golygu bod angen 117 o leiniau ar gyfer teuluoedd sydd eisoes yn byw yng Nghaerdydd. Mae’r angen wedi ei rannu fel a ganlyn:

- Angen heb ei ddiwallu ar hyn o bryd am 33 o leiniau
- Angen 40 o leiniau tymor byr rhwng 2020 a 2025
- Y tu hwnt i 2025, mae angen pellach heb ei ddiwallu am 44 o leiniau dros weddill y CDLIN (2026 – 2036) i ddarparu ar gyfer twf teuluol wrth i blant ddod yn oedolion ac angen eu llain eu hunain, gan roi cyfanswm angen o 117 o leiniau tan ddiwedd cyfnod y Cynllun.
- Nid oes angen dyraniad ar gyfer pobl sioe deithiol na phobl syrcas.
- Mae'r ALISTh hefyd yn nodi’r angen i ddarparu safle tramwy. O ystyried y symudiad trawsffiniol sy'n gysylltiedig â theuluoedd sy'n pasio trwy Awdurdodau Lleol, bydd y pwnc hwn yn cael ei drafod orau drwy'r Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol.

24.3 Ers cyhoeddi'r ALISTh, rhoddwyd caniatâd cynllunio i 4 llain ychwanegol ger safle Sipsiwn a Theithwyr presennol Shirenewton, gan leihau'r angen cyffredinol i 113 o leiniau.

24.4 Mae Polisi H11 yn dyrannu tir yn Lawnt Pengam ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr dros dro am hyd at 10 mlynedd. Bydd hyn yn galluogi gwaith i symud

ymlaen ar gadarnhau cynigion i wella ac ymestyn safle presennol Sipsiwn a Theithwyr Ffordd Rover i ddiwallu'r angen am leiniau newydd a nodwyd yn yr ALISTh. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer gwella ac ailalinio Ffordd Rover ac uwch gynllunio ehangach i ardal Lawnt Pengam.

**25 Beth yw strategaeth y CDLI ar gyfer cyflogaeth? A yw wedi ei lywio gan adolygiad tir cyflogaeth? A yw'n gyson â gofynion polisi cenedlaethol? Ac a yw wedi ystyried y prif ysgogwyr ar gyfer newid yn y farchnad gyflogaeth?**

25.1 Mae cynnal twf a gwytnwch economaidd yn un o amcanion allweddol y CDLIN. Mae Polisi Strategol SP1 – Darparu ar gyfer Twf Cynaliadwy yn gwneud darpariaeth ar gyfer 32,300 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun 2021 i 2036 ac mae Polisi Strategol SP2 – Cynnal Twf Economaidd a Gwydnwch yn gwneud darpariaeth ar gyfer amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth ac mewn gwahanol leoliadau daearyddol ledled y ddinas a fydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni'r lefel twf a nodir yn y cynllun.

25.2 Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fframwaith cryf i ddiogelu rôl tir cyflogaeth y ddinas yn y dyfodol, trwy ddynodi tir a safleoedd cyflogaeth strategol a lleol pwysig. Caiff yr ardaloedd hyn eu nodi ar y map cynigion a byddant yn parhau i fod yn ofynnol at ddibenion cyflogaeth. Mae ardaloedd o'r fath wedi eu diogelu rhag mathau eraill o ddatblygiad, er mwyn bodloni'r cyflenwad yn y dyfodol yn effeithiol o ran gofod llawr swyddfeydd/ymchwil a datblygu, yn ogystal â thir diwydiannol a warysau, dros gyfnod y cynllun.

25.3 Mae'r Cynllun yn cynnig fframwaith ar gyfer darparu ystod eang a dewis o safleoedd cyflogaeth mewn gwahanol leoliadau ac ar gyfer sectorau gwahanol gan gynnwys sectorau marchnad allweddol technolegau TGCh, ynni a’r amgylchedd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, y diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Bydd y safleoedd hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni'r lefel o dwf a bennwyd ar gyfer swyddi newydd. Yn bwysig, bydd gwahanol safleoedd yn cyflawni rolau gwahanol yn y strategaeth.

25.4 Mae darparu tir cyflogaeth fel rhan o ddatblygiadau cynhwysfawr ehangach a arweinir gan dai yng ngogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain Caerdydd, yn chwarae rôl bwysig o ran y cyflenwad cyffredinol a'r cymysgedd o dir cyflogaeth sy'n cynnig ystod a dewis da o safleoedd cyflogaeth bach y tu allan i'r canol, gan gynnwys swyddfeydd, y diwydiannau creadigol, gweithdai bach, ac unedau busnesau newydd. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth lleol yn parhau i gael eu darparu ac yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau cyflogaeth daearyddol sydd ledled y ddinas.

25.5 Mae cwmpas daearyddol 'cynnig Caerdydd' hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch. Yn hyn o beth, mae'r cynnig strategol allweddol sy'n ymwneud â Pharth Menter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth

Ranbarthol yn cynrychioli lleoliad cynaliadwy a hygyrch iawn, yn agos at ardaloedd o ddiweithdra uchel yn y ddinas ond hefyd yn hygyrch i'r rhanbarth ehangach trwy ddulliau teithio cynaliadwy.

25.6 Mae craidd prif swyddfeydd Caerdydd sef y Sgwâr Canolog yn cynnwys swyddfeydd Gradd A gan gynnwys pencadlys newydd BBC Cymru a'r Gyfnewidfa, cynllun masnachol a phreswyl defnydd cymysg a gorsaf drafnidiaeth.

25.7 Nod y datblygiad arfaethedig yn Parc Caerdydd yw dod yn gatalydd ar gyfer twf, gan gyfrannu at adfywio dwyrain Caerdydd a'r Brifddinas-Ranbarth ehangach. Bydd datblygu parc busnes newydd yn darparu hyd at 90,000 metr sgwâr o ofod busnes ac mae ganddo'r potensial i gefnogi tua 6,000 o swyddi, yn ogystal â dod yn orsaf drafnidiaeth sy'n helpu pobl i gyrchu cyfleoedd cyflogaeth eraill ar draws y rhanbarth.

25.8 Mae'r strategaeth gyflogaeth wedi'i llywio gan Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth a gynhaliwyd gan Hardisty Jones Associates (HJA) mewn partneriaeth ag Owen Davies Consulting a NP Linnells Property (CDLIN 40). Ceir rhagor o fanylion am hyn isod yn yr ymateb i gwestiwn 27.

**26 A yw'r CDLl yn dyrannu tir ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd? Os felly, sut mae'r gofyniad wedi'i ddiffinio? A yw'r safleoedd a ddyrannwyd wedi bod yn destun chwiliad dilyniannol?**

26.1 Mae'r strategaeth gyflogaeth wedi'i llywio gan Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth a gynhaliwyd gan Hardisty Jones Associates (HJA) mewn partneriaeth ag Owen Davies Consulting a NP Linnells Property (CDLIN 40).

26.2 Cyfrannodd yr Astudiaeth ymhellach at sylfaen dystiolaeth Adolygiad y CDLl trwy nid yn unig nodi'r gofynion tir cyflogaeth ar gyfer cyfnod y CDLl newydd (2021-2036), ond hefyd asesu addasrwydd y cyflenwad tir cyflogaeth presennol i ddiwallu'r anghenion hyn.

26.3 Mewn termau meintiol mae'r cyflenwad presennol o ofod llawr swyddfeydd ac ymchwil a datblygu ar draws yr ystod o ardaloedd sy'n cyfrannu (y stoc bresennol o safleoedd gwag, y safleoedd a gadarnhawyd sydd ar y gweill a'r dyraniadau safle strategol) yn fwy na digon i fodloni'r gofynion craidd.

26.4 Mae gwarged yn y cyflenwad yn darparu ar gyfer amrywiaeth o deipiau a lleoliadau, gan gynnwys darpariaeth helaeth yn yr Ardal Fusnes Ganolog ac Ardal Bae Caerdydd, yn ogystal â darpariaeth y tu allan i'r dref/parciau busnes.

26.5 Mae potensial hefyd am lai o alw, neu ryddhau ychwanegol allan o'r stoc bresennol os bydd lefelau uwch o weithio hybrid yn parhau yn y tymor canolig. Ar ben hynny, mae potensial ar gyfer lefelau uwch o adnewyddu stoc mewn ymateb i'r angen i leihau allyriadau carbon.

26.6 Mae’r cyflenwad Diwydiannol a Warws a nodwyd yn is na'r amcangyfrif isaf o ofynion y dyfodol. Mae gan y farchnad ddiwydiannol gyfraddau eiddo gwag eithriadol o isel ar hyn o bryd, ac adroddwyd bod lefelau cryf o alw marchnad. Mae rhanddeiliaid wedi dweud bod cyflenwad cyfyngedig wedi llesteirio twf yn y sector hwn.

26.7 Mae dadansoddi yn awgrymu y dylai'r CDLl ddarparu ar gyfer tua 300,000 metr sgwâr o ofod diwydiannol a warws. Mae hyn yn sylweddol fwy na'r cyflenwad sydd ar gael o fewn y llif gwaith presennol a'r dyraniadau safle strategol. Mae'r gofyniad oddeutu 140,000 metr sgwâr o ofod llawr, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 35 hectar o ran tir.

26.8 O ystyried y gofynion tir cyflogaeth a ragwelir yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod y Strategaeth yn ceisio diogelu’n strategol dir busnes a diwydiannol a warysau sy'n bodoli'n barod ac sy’n bwysig yn lleol (defnydd B1b/c, B2 a B8). Bydd rhagdybiaeth gref hefyd o blaid cadw’r gofod swyddfa hygyrch ac o ansawdd uchel presennol (defnyddiau B1a).

26.9 Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn y Papur Technegol Cefndir Economaidd (CDLIN 13).

## 27 A fydd y CDLl yn darparu amddiffyniad i safleoedd cyflogaeth presennol? Os felly, pa amddiffyniad fydd yn cael ei roi, a sut mae'r safleoedd wedi'u dewis?

27.1 Mae darparu ystod addas a dewis o safleoedd ar gyfer datblygu diwydiannol a busnes yn y ddinas hefyd yn cynnwys diogelu safleoedd cyflogaeth presennol rhag datblygiadau amgen. Mae Polisi EC3 – Tir a Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig, yn diogelu 25 o safleoedd cyflogaeth presennol ar gyfer datblygu diwydiannol a busnes (Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8).

27.2 Mae nodi'r safleoedd cyflogaeth presennol gwarchodedig wedi'i lywio gan yr Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth (CDLIN 40), sy'n adolygu'r ardaloedd cyflogaeth presennol yn y ddinas am eu priodoldeb parhaus ar gyfer defnyddiau cyflogaeth, gan ystyried ffactorau fel cyflwr safleoedd, cyfraddau gwag, atyniad i’r farchnad a lleoliad. Mae'r fethodoleg asesu hefyd wedi cael ei defnyddio gan y Cyngor i asesu diogelu ychydig o ychwanegiadau newydd i'r polisi.

## 28 Beth yw strategaeth y CDLl ar gyfer datblygu manwerthu? A yw'n ystyried y twf a ragwelir mewn sectorau eraill, yn enwedig tai a chyflogaeth, dros gyfnod y Cynllun?

28.1 Canol Dinas Caerdydd fydd y brif gyrchfan ar gyfer prif ddefnyddiau canol tref, gan gynnwys manwerthu. Cefnogir Canol y Ddinas gan amrywiaeth o Ganolfannau Ardal a Chanolfannau Lleol llai eu maint. Mae Canolfannau Ardal yn gwasanaethu anghenion dalgylch lleol eang a byddant yn brif ffocws ar gyfer

datblygu a buddsoddi mewn prif ddefnyddiau canol tref y tu allan i Ganol y Ddinas.

28.2 Mae'r CDLIN yn cael ei lywio gan Astudiaeth Manwerthu a Hamdden a gynhaliwyd gan Nexus Planning (CDLIN 41). Daw hwn i'r casgliad nad oes angen dod ag unrhyw safleoedd pellach ymlaen i ddarparu ar gyfer manwerthu cymharol neu gyfleustra yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036. Cynhaliodd yr astudiaeth hefyd archwiliad iechyd manwl o ganol y ddinas a'r 11 canolfan ardal ac 20 canolfan leol.

**29 Beth yw fframwaith strategaeth/polisi'r CDLl ar gyfer y meysydd canlynol:**
**a) Y Gymraeg**

29.1 Mae'r CDLIN yn cael ei lywio gan Asesiad Effaith ar y Gymraeg (CDLIN 26) ac mae'n cynnwys Polisi Strategol SP15 a Pholisi Manwl WL1 sy'n anelu at sicrhau a gwella cyfleoedd i dyfu'r Gymraeg.

29.2 Mae Polisi SP15 yn dynodi bod ardal Awdurdod Lleol Caerdydd yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol. Wrth ddatgan yn y cynllun hwn fod Caerdydd yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol, yn unol â TAN 20 Cynllunio a'r Gymraeg (2017) a PCC 12 (2024), golyga hynny bod yn rhaid i gynigion datblygu seilwaith defnydd tir a chyflogaeth a chyfleusterau cymunedol ystyried yr elfen hon yn gynnar yn y broses gynllunio yn yr un modd ag yr ystyrir pynciau a themâu strategol eraill.

29.3 Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhapur Technegol Cefndir y Gymraeg (CDLIN 20).

**b) Ansawdd aer**

29.4 Mae ansawdd aer yn y ddinas yn bodloni'r safonau cyfredol yn gyffredinol, er bod pedair Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAAau ) yn y ddinas, sef Canol Dinas Caerdydd, Pont Treláі, Stepheson Court, Heol Casnewydd a Heol Caerdydd, Llandaf. Mae Polisi Manwl PC1 – Aer, Sŵn, Llygredd Golau a Thir Halogedig, yn sefydlu'r fframwaith polisi i asesu effaith cynigion datblygu ar ansawdd aer. Pan ystyrir y gall cynnig datblygu effeithio ar ARhAA , neu waethygu problem sy'n bodoli eisoes, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu asesiad o effaith ansawdd aer, ynghyd â chynigion ar gyfer lliniaru.

29.5 Ar lefel fwy strategol, mae'r CDLIN yn ceisio lleihau unrhyw effeithiau llygredd a allai ddeillio o ddatblygiad newydd yn y ddinas trwy sicrhau bod datblygiad wedi'i leoli'n gynaliadwy ac wedi'i gysylltu'n dda â chyfleusterau, er mwyn annog newid moddol mewn patrymau teithio.

29.6 Mae effaith bosibl y CDLIN ar ansawdd aer ac effeithiolrwydd y fframwaith polisi wrth fynd i'r afael â'r mater hefyd wedi'i asesu drwy'r ACI (CDLIN 23) a'r ARhC (CDLIN 24). O fewn yr ARhC, nodir llygredd atmosfferig fel 'llwybr effaith' sy'n

gysylltiedig â'r CDLIN, gan dynnu sylw at y safleoedd Ewropeaidd sy'n sensitif i lygredd atmosfferig, y polisïau a allai (cyn ystyried lliniaru) arwain at Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Ewropeaidd a sefydlu argymhellion i'w cynnwys yn y Cynllun.

**c) Rhwydweithiau ecolegol a bioamrywiaeth**

29.7 Mae gan Gaerdydd seilwaith gwyrdd sylweddol ac unigryw, tirwedd, bioamrywiaeth ac adnoddau natur, nifer ohonynt o bwysigrwydd rhyngwladol a chenedlaethol, yn ogystal â nifer o safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Mae'r angen i warchod, gwella a rheoli'r adnoddau hyn yn amcanion allweddol i’r CDLIN.

29.8 Mae Polisi Strategol SP21 – Cynnal a Gwella Seilwaith Gwyrdd, yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu yn cynnal ac yn gwella uniondeb, ehangder, amrywiaeth, ansawdd a chysylltedd asedau seilwaith gwyrdd ac yn darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol a "Manteision Net i Fioamrywiaeth". Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn y broses gynllunio yn dilyn Asesiadau Seilwaith Gwyrdd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r dull fesul cam a amlinellir yn PCC a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 er mwyn darparu buddion tirwedd a seilwaith gwyrdd a chynorthwyo i adfer natur a gwytnwch ecosystemau.

29.9 Cefnogir Polisi Strategol SP21 gan ystod o bolisïau manwl BG1 – Safleoedd Dynodedig, BG2 – Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwysigrwydd i Fioamrywiaeth, BG3 – Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth, BG4 – Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth a'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd, BG5 – Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd, BG6 – Priddoedd, BG7 Aber Afon Hafren a Phwysau Hamdden Coed Ffawydd Caerdydd. Gyda'i gilydd maent yn darparu fframwaith polisi cadarnhaol tuag at fioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol.

29.10 Yn ogystal, cefnogir y CDLIN gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd (CDLIN 46), Astudiaeth Ardal Tirwedd Arbennig (CDLIN 44) ac Astudiaeth Lletem Werdd (CDLIN 45).

**d) Yr amgylchedd hanesyddol**

29.11 Mae Polisi Strategol SP14 – Diogelu a Gwella Treftadaeth a Diwylliant Adeiledig yn ceisio diogelu amgylchedd hanesyddol Caerdydd fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd â phen draw iddo, yn adnodd a rennir na ellir ei adnewyddu, sy'n cyfoethogi bywydau pobl - ac ymddangosiad gweledol y ddinas. Mae'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant y cymunedau sydd wedi ffurfio dros amser, yn dystiolaeth o orffennol Caerdydd ac yn helpu i ddiffinio hunaniaeth a chymeriad y ddinas heddiw yn y ddwy iaith. Gall dealltwriaeth o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y ddinas gynnig cyd-destun ar gyfer rheoli newid ac mae'n creu cefnlen ar gyfer arloesi wrth ddylunio datblygiadau newydd i siapio dyfodol y ddinas. Mae'r polisi strategol hwn yn cael ei gefnogi gan Bolisi Manwl HE1 sy'n nodi ystyriaethau rheoli datblygu manwl.

**e) Mwynau**

29.12 Yn unol â gofynion polisi cenedlaethol a rhanbarthol, mae'r CDLIN yn annog ymagwedd cynaliadwy o gynllunio mwynau. Mae Polisi Strategol SP11 – Cynnal cyflenwad o Fwynau, yn sefydlu'r ymagwedd polisi trosfwaol o reoli mwynau, gan fynd i'r afael â diogelu adnoddau, gofynion banc tir a defnydd effeithlon o adnoddau mwynau. Ategir hyn gan ystod o bolisïau manwl sy'n cynnig ymagwedd polisi ar feysydd penodol, gan gynnwys Polisi MW1 – Cronfeydd ac Adnoddau Calchfaen Mwynau, MW2 – Trefn Rhyddhau Adnoddau Mwynau a Ffefrir, Cau a Therfynau Estyniad Chwareli MW3, Clustogfeydd Mwynau MW4, MW5 Adfer ac Ôl-ddefnyddio Gweithfeydd Mwynau, MW6 Ardaloedd Gwarchod Glanfeydd Tywod ac MW7 Diogelu Tywod a Graean, Adnoddau Calchfaen ac Agregau Manyleb Uchel.

29.13 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru – Ail Adolygiad (DTRh2) (CDLIN 55) yn nodi'r cyfraniad y dylai pob awdurdod lleol unigol ei wneud tuag at fodloni'r gofynion mwynau rhanbarthol. Ar lefel awdurdod lleol, o'i gymharu â'r gofyniad dosrannol a nodir yn DTRh2, mae gan Gaerdydd ddiffyg o 7.475 miliwn tunnell y dylid ei gyrraedd erbyn 2041. Mae'r Papur Technegol Cefndir Mwynau yn nodi sut yr eir i'r afael â'r diffyg hwn drwy ganiatadau cynllunio diweddar i ymestyn Chwarel Ffynnon Taf a dyrannu 'Ardal a Ffefrir' gerllaw Chwarel Ton Mawr (CDLIN 17).

29.14 Mae DTRh2 yn cyflwyno gofyniad newydd i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLlau) gytuno ar Ddatganiadau o Gydweithredu Is-Ranbarthol (DGIR) o ran eu cyfraniad at ddarpariaeth yn y dyfodol o agregau crai a enillwyd o'r tir.

29.15 Mae Caerdydd yn rhan o Is-ranbarth Dinas Caerdydd gydag ardaloedd awdurdod lleol Caerffili, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r ACLlau hyn wedi gweithio ar y cyd i baratoi Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol (DGIR) (CDLIN 54). Mae hyn yn cadarnhau bod gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Chaerffili ddigon o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar safleoedd presennol i gwrdd â'u dosraniad, felly nid oes angen unrhyw ddyraniadau pellach o fewn eu CDLINau. Mae gan RhCT ofyniad am 9.295 miliwn tunnell ychwanegol ac mae gan Gaerdydd ofyniad am 7.475 miliwn tunnell ychwanegol i gwrdd â'i ddosraniad hyd at 2041.

### f) Rheoli gwastraff

29.16 Mae'r polisïau gwastraff a nodir yn y CDLIN wedi'u hysgrifennu i gyd-fynd â'r polisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21: Gwastraff. Mae Polisi Strategol SP23 – Rheoli Gwastraff, yn nodi'r egwyddorion polisi trosfwaol sy'n ofynnol i hwyluso cyflawni rheoli gwastraff cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys cydymffurfio â'r

hierarchaeth wastraff, cefnogi rhwydwaith integredig a digonol o seilwaith rheoli gwastraff a sicrhau darparu mesurau rheoli gwastraff digonol mewn datblygiadau newydd.

29.17 PCC ac NCT 21: Gwastraff, mae'r rhain yn sefydlu trefniadau monitro rhanbarthol i lywio paratoi CDLlau a chynorthwyo i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Adroddiad Monitro Gwastraff De-ddwyrain Cymru 2018-2019 (a gyhoeddwyd yn 2020) yn dod i'r casgliad nad oes angen capasiti tirlenwi ychwanegol ar hyn o bryd yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru ac nad oes angen penodol am gyfleusterau rheoli gwastraff o'r fath wedi'i nodi ar hyn o bryd ar lefel ranbarthol. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn y Papur Technegol Cefndir Gwastraff (CDLIN 18).

29.18 Rhagwelir y bydd ceisiadau am amrywiaeth o gyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y Cynllun. Gyda'r dyheadau i symud i economi fwy cylchol a'r angen i symud rheolaeth gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth wastraff, mae'n debygol y bydd cynigion ar gyfer rheoli gwastraff yn cwmpasu ystod eang o gyfleusterau sydd ag effeithiau gwahanol. Gallai cynigion gynnwys cyfleusterau ar gyfer gwirio a glanhau gwastraff; paratoi ar gyfer ailddefnyddio; prosesu, adnewyddu ac adfer gwastraff; trosglwyddo gwastraff; ailgylchu; cynigion ynni o wastraff; a gwarediad. Mae'r polisi yn cefnogi darparu seilwaith gwastraff eang ac amrywiol sy'n diwallu anghenion a nodwyd, yn amodol ar addasrwydd y lleoliad arfaethedig.

29.19 Bydd yr angen am gynigion gwastraff yn cael eu hasesu yn erbyn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a'r gofynion capasiti a sefydlwyd trwy fonitro rhanbarthol, fel y nodir yn NCT 21.

29.10 Yn gyffredinol anogir cyfleusterau gwastraff tuag at ardaloedd diwydiannol cyffredinol (defnydd dosbarth B2) sy'n bod eisoes, oni ellir dangos y gallent gael eu lleoli mewn modd derbyniol yn rhywle arall, neu oni bai bod asesiad o'r cynnig yn dangos y dylai safonau llymach o ran lleoliad fod yn gymwys.

29.21 Atodiad C NCT 21: Mae gwastraff yn nodi'r ystyriaethau cynllunio penodol y mae angen eu hystyried wrth asesu ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Yn ogystal, mae Polisi MW8 – Safleoedd ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff, yn nodi'r meini prawf CDLIN i'w hystyried wrth benderfynu ar gynigion rheoli gwastraff.

### g) Ynni adnewyddadawy a charbon isel

29.22 Mae Cyngor Caerdydd ei hun wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi addo dod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae ymateb i argyfwng hinsawdd yn flaenoriaeth genedlaethol a lleol craidd ac fe'i hadlewyrchir ym materion, gweledigaeth, amcanion, strategaeth a fframwaith polisi'r CDLIN. Mae Polisi Strategol SP20 – Sicrhau Gwydnwch Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy mewn Datblygiadau Newydd yn nodi fframwaith polisi i liniaru achosion newidiadau yn yr hinsawdd ac i addasu i effeithiau newid yn yr

hinsawdd. Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu ddilyn yr hierarchaeth ynni a dangos sut maent wedi gweithio tuag at:

- Atal datblygu sy'n gosod baich datgarboneiddio ychwanegol ar y ddinas;
- Dilyn yr egwyddorion Hierarchaeth Ynni, gostwng allyriadau carbon gwaith adeiladu a gweithredu i'r moddau hyfyw isaf ar ôl asesu ystod lawn o opsiynau;
- Diogelu a chynyddu sinciau carbon trwy warchod priddoedd a llystyfiant a chynyddu plannu coed;
- Addasu i oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar lefel strategol a lefel dylunio manwl;
- Cynyddu effeithlonrwydd ynni a chyflenwad o ynni adnewyddadwy;
- Atal datblygu sy'n cynyddu'r perygl o lifogydd; a
- Lleihau effaith gwres.

29.23 Mae'r polisi strategol hwn yn cael ei gefnogi gan bolisïau rheoli datblygu manwl RE1 - Datblygu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ac RE2 - Datblygu Sero Net sy'n nodi sut y bydd ceisiadau yn cael eu hystyried.

29.24 Wrth baratoi'r CDLlN, mae Cyngor Caerdydd wedi ymgymryd â Chynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) (CDLlN). Mae'r CYAL yn nodi'r cyfuniad a ffefrir o newidiadau technolegol a system sydd eu hangen ar y system ynni leol, i ddatgarboneiddio gwres a thrafnidiaeth leol a gwireddu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol.

### h) Trafnidiaeth, a

29.25 Mae Polisi Strategol SP18 – Darparu Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol, yn nodi strategaeth i annog dulliau trafnidiaeth cynaliadwy. mae hyn yn cynnwys cyrraedd targed fel bod 75% o'r holl deithiau i gael eu gwneud drwy ddulliau teithio cynaliadwy erbyn 2030 fel y nodir ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd (CDLlN 50). Cefnogir y polisi strategol gan ystod o bolisïau manwl T1 – Blaenoriaethu Cerdded a Beicio, T2 Trafnidiaeth Gyflym Strategol, Coridorau Bysiau a Gwelliannau Bysiau, T3 Trafnidiaeth Rheilffyrdd, T4 Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth, T5 Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth, T6 Rhwydwaith 'Metro' Dinas-ranbarth Caerdydd a T7 Codi Tâl Cerbydau Trydan. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Papur Technegol Cefndir Trafnidiaeth (CDLlN 15).

### i) Rhwymedigaethau cynllunio

29.26 Mae'r CDLlN yn cydnabod yr angen i sicrhau bod seilwaith priodol eisoes ar waith neu y gellir ei ddarparu i groesawu'r lefel a'r lleoliadau twf a nodwyd yn y CDLlN. Felly, bydd angen i ddatblygiadau newydd ddarparu neu gyfrannu tuag

at ddarparu'r seilwaith angenrheidiol a bodloni gofynion Polisi Strategol SP5 – Sicrhau Seilwaith Newydd ac SP6 – Sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio, a fydd yn cael eu cyflawni/gweithredu drwy'r broses Rheoli Datblygu ac yn cael eu sicrhau drwy gytundebau a wnaed o dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**30 A yw'r CDLl yn darparu fframwaith monitro a fydd yn galluogi'r ACLl i olrhain gweithrediad y strategaeth a'r polisïau yn flynyddol ac, os oes angen, sbarduno adolygiad?**

30.1 Mae Fframwaith Monitro wedi'i ddatblygu a'i gynnwys yn Atodiad 6 y CDLIN. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i asesu a yw strategaeth, polisïau a chynigion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Mae'r Fframwaith Monitro yn cynnwys cyfres o ddangosyddion, targedau a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach yn ymwneud â pholisïau strategol a manwl a bydd yn sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd y themâu polisi.

30.2 Yn ogystal, mae Adran 9 yr ACI (CDLIN 22) yn nodi'r dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd materion cynaliadwyedd ac yn fwy penodol ddatblygu cynaliadwy. Bydd y Fframwaith Monitro a'r dangosyddion monitro ACI yn sail i'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).